

## *Cyngor Cymuned Llanllyfni*

### **Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 10fed o Fedi 2013.**

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr Dafydd Glyn Owen (Cadair), Harry Wyn Owen, Sharon Wynne Jones (Talysarn); Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts (Llanllyfni); Menna Williams, Ifan Glyn Jones, Barry Bracegirdle, Elwyn Jones-Griffith, Iwan Lloyd Williams (Penygroes); Eurig Evans (Nebo); T Les Jones (Nantlle).

Bydd y Cyngor yn holi am y gwasanaeth bysiau yn Talysarn, gan fod trigolion yn aneglur ar ble mae'r bysiau i fod i droi yn ol. Byddwn yn gwahodd swyddogion o'r Cyngor a chynrychiolaeth o'r cwmni bysiau i'r cyfarfod nesaf.

#### **Cynllunio.**

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol ar gyfer sylwadau'r Cyngorwyr:

\*1 Cae Melan, Penygroes – Codi modurdy domestig. Cymeradwyo.

\*Rhif 8 a 10 Ffordd Nantlle, Talysarn – newid amodau ar ganiatad cynllunio er mwyn adeiladu dyluniad diwygiedig. Cymeradwyo.

\*Talymignedd Uchaf, Nantlle – Adeiladu ystafell wydr. Cymeradwyo.

\*Newid defnydd a lefel tir i greu parc beicio BMX – Gloddfa Glai, Talysarn. Caniatau.

\*19-21 Tanrallt Terrace, Llanllyfni – Newid defnydd y ty presennol if od yn 2 dy ar wahan.

Cymeradwyo.

Caniatawyd adeiladu cytiau cwn preswyl, Llety'r Bugail, Drws y Coed Isaf, Nantlle gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

#### **Gohebiaeth.**

##### **Cyngor Gwynedd**

\*Derbyniwyd copiau Gorchymyn Gwaharddiad Aros i Nantlle a Phenygroes. Byddwn yn holi i ba reswm mae bwriad rhoi cyfyngiad aros ger y Swyddfa Bost yn Nantlle.

\*Copiau Gorchymyn Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd dros dro – Ffordd y Brenin, ar gyfer gwaith ailwynebu sydd bellach wedi ei gwblhau. Byddwn yn cysylltu efo Cyngor Gwynedd gan bod pryder nad yw'r twmpathau ar y lon ddigon trwchus, ac nad ydynt yn cael unrhyw effaith ar gyflymder trafndiaeth. Byddwn yn gofyn am gyfarfod safle cyn cael paentio'r twmpathau ar y ffordd.

\*Gorchymyn Cyngor Gwynedd – Hen Lon Penygroes, Tai Fictoria Nantlle. Mwy o wybodaeth ei angen ar y gorchymynion, a mae angen gwneud yn siwr nad yw'r cais i Hen Lon yn cael ei anghofio, a chael ymgynghoriad pellach i ymateb i'r sylwadau a roddwyd.

\*Llythyr parthed cronfeydd Cist Gwynedd. Y Cyngor am holi ynglyn a grant ar gyfer gwefan.

#### **Materion Pentrefi.**

Llanllyfni – Cais am lloches bws yn Maes Castell. Angen pwysu ymlaen i geisio cael lloches bws ar y safle; Coed wedi ailddechrau tyfu ar y bont rhwng Llanllyfni Penygroes (ar ol Glan Rhyd); Angen cysylltu efo Cyngor Gwynedd am ddiweddariad arwyddion cyffordd Efail y Berth.

Talysarn: Holi beth sydd wedi digwydd i'r fainc a oedd yn y pentref; Angen torri darn o'r cae chwarae i Ffordd yr Orsaf. Gor-yrru ar Ffordd yr Orsaf a Hyfrydle.

Penygroes Bwlch yn wal cae Ysgol Dyffryn Nantlle ar Hen Lon. Nifer o blant yn mynd drwyddo i fynd i'r cae i chwarae pel droed. Byddwn yn gofyn i'r Awdurdod Addysg gau y bwllch gan fod pryder am ddiogelwch plant sy'n dod allan o'r cae i'r ffordd; Hen Ffordd Clynnog (Allt Goch i fyny) – mae'r clawdd ar y dde wedi tyfu allan i'r ffordd ac yn uchel. O ganlyniad mae'r lon yn culhau o'r tro i fyny at Pentyrch at gylchfan y ffordd osgoi. Mae pryder fod y coed wedi tyfu mor fawr y gall y gwreiddiau ddifrodi'r wal gerrig.; Cysgodfan bws dros y ffordd i Bro Llwyndu gyda tyfiant yn ymwithio drwy'r cefn i fewn i'r gysgodfan.

Nantlle – Byddwn yn holi Cyngor Gwynedd am ddiweddariad parthed y goeden sydd wedi crino ger y ffordd.